# Arolwg Cenedlaethol Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Gwneud eich atebion arolwg hyd yn oed yn fwy gwerthfawr

## Beth y dymunwn ei wneud?

Hoffai Llywodraeth Cymru **gysylltu eich atebion arolwg dienw chi**, i wybodaeth ddienw arall amdanoch chi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) neu sefydliadau cyhoeddus eraill. Er enghraifft, cofnodion meddyg teulu, ysbyty a chofnodion addysg.

## Pam rydym am gysylltu eich atebion arolwg?

Bydd cysylltu eich atebion yn rhoi llawer o wybodaeth ychwanegol i ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo, Llywodraeth Cymru a sefydliadau cyhoeddus eraill fel y gallant gael darlun cliriach o faterion yng Nghymru a sut i ddelio â nhw.

## Beth fydd yn digwydd i'm gwybodaeth?

Bydd Llywodraeth Cymru, trydydd parti y gellir ymddiried ynddo, **Iechyd a Gofal Digidol Cymru**, ac amgylchedd ymchwil diogel, **Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru**, yn cydweithio er mwyn cysylltu eich atebion yn yr arolwg â gwybodaeth ddienw arall amdanoch chi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, y GIG neu sefydliadau cyhoeddus eraill.

Mae **Iechyd a Gofal Digidol Cymru** yn sefydliad sydd â chyfleusterau diogel ar gyfer cysylltu data. Mae **Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru** yn amgylchedd ymchwil diogel: lleoliad lle gellir defnyddio gwybodaeth ddienw i ymchwilio a lle cynhelir gwiriadau i sicrhau nad oes modd adnabod unigolion drwy ganlyniadau'r ymchwil. Bydd eich enw, cyfeiriad a'ch cod post bob amser yn cael eu cadw ar wahân i'ch atebion yn yr arolwg ac ni fyddant yn cael eu cynnwys yn y data cysylltiol.

## Pwy fydd yn gallu defnyddio'r data cysylltiol?

Bydd y data ar gael drwy Ganolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru i ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo o Lywodraeth Cymru, prifysgolion neu sefydliadau achrededig eraill ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Dim ond prosiectau ymchwil anfasnachol fydd yn cael eu cymeradwyo.

Cyn y caniateir ymchwilwyr i gael gafael ar ddata gan ddefnyddio amgylchedd ymchwil diogel, rhaid iddynt gwblhau cwrs hyfforddi i wneud yn siŵr eu bod yn deall sut i ddelio â data dienw cysylltiedig yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol.

## Ble gallaf gael mwy o wybodaeth am hyn?

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan Arolwg Cenedlaethol Cymru.  Ceir manylion ar sut yr ydym yn storio a phrosesu gwybodaeth yn:

**www.llyw.cymru/arolwgcenedlaetholgwyb**

www.llyw.cymru/arolwgcenedlaetholgwyb